| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU GOFAL |
| **DYDDIAD** | 10 Tachwedd 2022 |
| **TEITL** | Blaenraglen Pwyllgor Craffu Gofal 2022/23 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | I'r Pwyllgor flaenoriaethu eitemau ar gyfer y cyfarfodydd sydd i ddod a mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig. |
| **AWDUR** | Llywela Haf Owain, Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu |

1. Mabwysiadwyd Blaenraglen y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 29 Medi 2022.

2. Ers y cyfarfod yna, mae'r eitem 'Adroddiad Asesiad Anghenion Poblogaeth Gwynedd', a oedd i'w ystyried yn y cyfarfod yma, wedi llithro gyda'r angen i'w ail-raglennu.

3. Yn ogystal, mae'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd wedi cael cyfarfodydd gyda'r Aelodau Cabinet a Phenaethiaid perthnasol. Adnabuwyd un eitem ychwanegol i'r Pwyllgor roi ystyriaeth i'w flaenoriaethu sef, canlyniad archwiliad a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.

4. Fel y gwelwch yn yr Atodiad i'r adroddiad, mae pedair eitem eisoes wedi eu rhaglennu ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn mis Chwefror. Gwnaed ymgais i flaenoriaethu uchafswm o dair eitem fesul cyfarfod er mwyn sicrhau bod sylw teilwng yn cael ei roi i faterion a bod craffu yn gallu ychwanegu gwerth. Nid oedd hynny yn bosib ar yr achlysur yma.

5. Ystyriaeth arall i'r Pwyllgor wrth flaenoriaethu eitemau, fydd yr hyn sydd wedi deillio o'r drafodaeth yn y Pwyllgor ar yr eitem 'Polisi Gosod Tai'. Nodir yn yr adroddiad y bwriad i gyflwyno adroddiad pellach i'r Pwyllgor yn y flwyddyn newydd.

6. **Gofynnir i'r Pwyllgor flaenoriaethu eitemau ar gyfer y cyfarfodydd sydd i ddod a mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig.**

ATODIAD

## BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU GOFAL 2022/23

| **07/07/2022** |
| --- |
| • Adroddiad Sefydlogrwydd Marchnad Gofal Gogledd Cymru |
| **29/09/2022** |
| • Recriwtio a chadw staff yn y maes gofal (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)<br>• Gwasanaeth Cadwraeth Ynni Newydd |
| **10/11/2022** |
| • Gwasanaeth Ambiwlans<br>• Gwasanaeth Ieuenctid<br>• Polisi Gosod Tai |
| **16/02/2023** |
| • Siop Un Stop Tai<br>• Cynllun Gweithredu Tai<br>• Lleoliadau Plant Mewn Gofal<br>• Recriwtio a chadw staff yn y maes gofal (Adran Plant a Theuluoedd) |
| **20/04/2023** |
| • Gwasanaeth Iechyd Meddwl Gwynedd (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)<br>• Cynllun Awtistiaeth 2021-23<br>• Darpariaeth Gofal Dementia |

<u>Eitem i'w raglennu</u>:

Adroddiad Asesiad Anghenion Poblogaeth Gwynedd